



Negeseuon Allweddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru Mawrth 2021

Adolygiad Ymarfer Plant BDPGC Sir y Fflint 2019/1 - Adroddiad Drafft a Chynllun Gweithredu

Cafodd y cynllun gweithredu a'r adroddiad drafft eu cymeradwyo gan aelodau'r bwrdd gyda rhai mân newidiadau.

Adolygiad Amenedigol Marw-enedigaethau o fewn BIPBC 2019

Rhoddodd Dr Lindsay Groves drosolwg o farw-enedigaethau o fewn BIPBC yn 2019. Byddwn yn ailymweld â'r eitem hon yn y dyfodol agos.

Ymchwiliad Ysgolion Preswyl IICSA

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r bwrdd. Roedd gan y IICSA elfen benodol o ymholiad ar ysgolion preswyl, ac fel rhan o hynny rhoddwyd sylw i achos penodol yng Ngogledd Cymru.

Nodwyd mai neges allweddol o hyn ddylai fod i'r Grwpiau Cyflawn Lleol - ysgolion preswyl, lleoliadau awyr agored etc, sut maent yn cael eu rheoleiddio, sut ydym yn ymestyn allan atynt trwy'r Grwpiau Cyflawni Lleol mewn mesur cefnogol.

Llinellau Cyffuriau / Lleoliadau heb eu rheoleiddio

Rhoddodd David Lewis drosolwg o'r adroddiadau Llinellau Cyffuriau / Lleoliadau heb eu rheoleiddio.

Atalwyr glasoed a chydsynio i driniaeth: dadansoddiad o ddyfarniad yr Uchel Lys

Rhoddodd Ceri Williams, Ymgynghorydd Cyfreithiol BDPGC drosolwg o ddyfarniad yr Uchel Lys ar 1 Rhagfyr 2020 yn achos Bell v Tavistock. Mae'r dyfarniad yn golygu efallai na fydd plant a phobl ifanc yn cael rhoi cydsyniad i driniaeth atal glasoed, a bydd angen gwneud cais i'r Llys i driniaeth o'r fath barhau.

Adroddiad Asiantaethau Partner Blynyddol

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adroddiad blynyddol BDGC. Yng ngoleuni'r penderfyniad hwn, cytunwyd gan gadeirydd y Bwrdd Plant y byddwn yn gofyn i bartneriaid y bwrdd statudol i gwblhau'r adroddiad asiantaeth bartner llai erbyn 1 Mehefin 2021.

Crynodeb/perfformiad a themâu o adroddiadau is-grwpiau

Darparwyd Adroddiadau BDPGC ar y canlynol:

- a) Grŵp Cyflawni Sir y Fflint a Wrecsam
- b) Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych
- c) Grŵp Cyflawni Gwynedd a Môn:
- d) Grŵp Polisi a Gweithdrefnau
- e) Grŵp Adolygu Ymarfer Plant

Amlygwyd y ffaith nad oes gan Grŵp Cyflawni Lleol Gwynedd ac Ynys Môn gadeirydd. Gwnaed bob ymdrech i ganfod cadeirydd addas ac mae'n bryderus fod y cyfarfod diwethaf wedi gorfod cael ei ganslo. Gofynnodd Cadeirydd BDPGC os allai asiantaethau gynorthwyo gyda'r swydd hon.